

Datganiad i'r Wasg Ionawr 2014

Cyhoeddi 2 flynedd arall o gyllid ar gyfer Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru (FMSP)

Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer parhad FMSP Cymru dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd y cyllid blynyddol sylweddol o £225,000 ar gael ar gyfer 2014-2015 a 2015-2016.

Dyweddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru Huw Lewis "Rydym wedi ymrwymo i wella lefelau rhifedd a'r pynciau STEM - gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg. "Mae lefel uchel o sgiliau mewn mathemateg yn agor drysau i gymaint o yrfaedd a rhaid i ni gefnogi ein dysgwyr a'u helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt".



Sesiwn Adolygu Ystadegau

Cafodd y rhaglen ei hariannu yn y lle cyntaf am 3 blynedd o 2010-2013 i gwmpasu ardal beilot **Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe**. Cafwyd cyllid pellach yn 2013/14 i gynnwys **Ynys Môn, Rhondda Cynon Taf, Conwy a Gwynedd**. Caiff ei arwain gan Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru (WIMCS) ym Mhrifysgol Abertawe ac mae'n gweithredu mewn partneriaeth ag Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Abertawe a Phrifysgol De Cymru.

Dywedd Stephen Williamson "Mae Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru (WIMCS) yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid i ddarparu 2 flynedd ychwanegol i'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach (FMSP) Cymru. Bydd y cyfnod estynedig o gyllid gwarantiedig yn galluogi'r tîm i gynllunio'n well a darparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer y Cwrs dwy flynedd Safon Uwch. Mae tystiolaeth bod myfyrwyr sydd â Mathemateg Bellach Safon Uwch wedi'u paratoi'n well ar gyfer Cyrsiau Gradd STEM yn enwedig y rhai mewn Mathemateg, Peirianeg a Ffiseg".

Bydd y cadarnhad o gyllid yn adeiladu ar lwyddiant y Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach (FMSP) Cymru, sy'n cefnogi ysgolion a cholegau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 i gynyddu arbenigedd athrawon a chael myfyrwyr i gymryd rhan mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach UG/Uwch. Mae pob ysgol uwchradd a choleg a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru yn cael eu gwahodd i gofrestru gyda'r Rhaglen. Mae ystod lawn o weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ar gyfer y rhai sy'n mynychu ysgolion/olegau a ariennir gan y wladwriaeth sydd â diddordeb mewn dilyn graddau sy'n gryf mewn Mathemateg (gan gynnwys pynciau STEM).



Gweithdy Geometreg - Cynhadledd Blwyddyn 12

Mae'r rhaglen yn darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n cyfoethogi ac adolygu gan gynnwys cynadleddau ar gyfer Blwyddyn 10, 11 a 12, dosbarthiadau meistr mathemateg uwch a gweithdai cymorth mathemateg pellach ar gyfer mathemateg pur, mecaneg ac ystadegau.

Cynhaliwyd gwerthusiad gan Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ac yn yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 dywedodd "y dull integredig o gefnogi sydd wedi cael ei werthfawrogi gan athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd". "Mae'r rhaglen yn darparu ystod hyblyg o hyfforddiant, adolygu, cyngor gyrfaedd ac adnoddau ar y we ar gyfer myfyrwyr a chymorth i athrawon".

Cysylltiadau defnyddiol:

www.furthermaths.org.uk/wales

<http://wales.gov.uk/newsroom/educationandskills/2013/8356143/?skip=1&lang=cy>

Am ragor o wybodaeth:

Cysylltwch â'r Cydlynnydd Ardal Sofya Lyakhova ar 01792 606845.

Nodiadau i Olygyddion

1 . Mae'r FMSP Cymru yn cael ei reoli gan Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru (WIMCS) ac mewn partneriaeth gyda Mathemateg mewn Addysg a Diwydiant (Mei, www.mei.org.uk) . Mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru .

2 . Gellir cael rhagor o wybodaeth am y rhaglen gymorth Mathemateg Bellach Cymru o : <http://www.furthermaths.org.uk/centre/?centre=wales>

3 . Mae Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru (WIMCS) yn bartneriaeth gydweithredol rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Morgannwg ac Abertawe . Sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bwriad WIMCS yw gwella statws mathemateg a chyfrifiannol yng Nghymru, i feithrin cysylltiadau â diwydiant, masnach a busnes, i gynhyrchu cyllid ymchwil sylweddol ac i ddarparu fforwm ar gyfer addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Gwyddorau Mathemategol (www.wimcs.ac.uk) .

4 . Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Gweinyddydd FMSP Cymru ar 01792 606609 neu drwy e-bost adminwales@furthermaths.org.uk



Cynhadledd Blwyddyn
12 Caerdydd
4^{ydd} Dimensiwm